Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# Llif y sgwrs: defnyddio cymryd-tro fel methodoleg i archwilio rhyngweithiadau mewn ystafelloedd dosbarth Cymraeg rhithiol ac wyneb yn wyneb.

Emma Grigorian, Prifysgol Metropolitan Caerdydd (e.grigorian@outlook.cardiffmet.ac.uk)


COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru


## Crynodeb

Cynigia'r poster hwn ddull cymysg i gymharu effeithiolrwydd ystafelloedd dosbarth dysgu ail iaith rithiol ac wyneb yn wyneb trwy ddadansoddi ffactorau ysgogol a dynameg sgwrsio. Mesura'r dull ffactorau sy'n cyfrannu neu'n amharu ar gymhelliant i barhau dysgu ieithoedd megis pryder wrth ddysgu iaith a llwyddiant tybiedig. Ar yr un pryd, dadansoddir patrymau cymryd-tro yn feintiol mewn rhyngweithiadau rhwng y dysgwr a'r tiwtor. Mae hyn yn cynnwys ciwiau gweledol megis iaith y corff yn ogystal â chiwiau clywedol megis y bylchau wrth i siaradwyr yn newid mewn sgwrs (cymryd-tro). Cynlluniwyd y dull hwn i weddu i gyd-destun dysgu unrhyw iaith, ond yn yr achos hwn fe'i defnyddir yng nghyd-destun y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Y nod yw cyfrannu at wneud dulliau dysgu rhithiol ac wyneb yn wyneb yr un mor effeithiol ar gyfer dysgwyr ail iaith ledled y byd i wneud ieithoedd yn hygyrch i bawb sydd eisiau eu dysgu.


## Cyd-destun: Cymraeg i Oedolion





Mae mwy o oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (GDCG) nag erioed o'r blaen (18,300) (Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, 2025).

Darpara'r GDCG wersi Cymraeg trwy ddulliau dysgu gwahanol gan gynnwys: ystafelloedd dosbarth wyneb yn wyneb; ystafelloedd dosbarth rhithiol (dros Zoom); hunan-astudio; cyfunol a chyrsiau preswyl.

Y dull mwyaf poblogaidd o ddysgu Cymraeg yn y GDCG yw trwy ystafell ddosbarth rhithiol trwy Zoom neu Teams. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi bod yn gyson bob blwyddyn ers y pandemig Covid-19 (Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, 2024).

Serch hynny, yn ystod y blwyddyn academaidd diweddaraf (2023/24), roedd cynnydd o 26% yn y nifer o ddysgwyr yn astudio wyneb yn wyneb (Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, 2025).

## Theori Cymryd-tro




### ❖ Cymryd-tro mewn sgwrs wyneb yn wyneb

Mae gan y bylchau wrth i siaradwyr yn newid mewn sgwrs amser cyfartalog o 200 milieiliad. Mae hyn yn rhy gyflym i fod o fewn reolaeth ymwybodol (Levinson & Torreira, 2015). Cysyniad gwybyddol cymhleth yw hwn o'r enw 'cymryd-tro'.

Mae'n rhaid i siaradwr brosesu ystyr lleferydd y cyd-siaradwr tra mae'n paratoi'r hyn y dyweda ymlaen llaw. Ar yr un pryd, mae'n rhaid iddynt dalu sylw i giwiau fel iaith y corff a thôn y llais i ragfynegi pryd y dylai siarad (Corps et al., 2018).

O arddulliau cymryd-tro, dehonglwn wybodaeth allweddol yn isymwybodol megis deinameg cymdeithasol rhwng siaradwyr yn ogystal â'u diddordeb yn y sgwrs (Templeton et al., 2022).

Ym mhob iaith a diwylliant, ffafrir sgyrsiau a nodweddir gan gymryd-tro esmwyth heb fawr o fylchau hir neu orgyffwrdd (Warnke, 2024).

### ❖ Cymryd-tro mewn sgwrs rhithiol




Mae gan alwadau fideo oedi sy'n amrywio'n gyson yn ystod yr alwad rhwng 90-200 milieiliad.

Effeithia anghysondeb yr oedi ar ein gallu i ragweld pryd y bydd y cyd-siaradwr yn gorffen siarad (Tian et al., 2024) .

Effeithir hyn hefyd gan ein golwg gyfyngedig o giwiau gweledol trwy'r sgrin a sain ystumiedig trwy'r seinyddion.

Achosa hyn fylchau hirach rhwng siaradwyr yn newid mewn sgwrs (~ 600 milieiliad) a mwy o orgyffwrdd (Boland et al., 2022).

## Methodoleg

**1. Sgwrs hanner-strwythuredig rhwng tiwtor a dysgwr:** Gofynnir rhestr o 20 cwestiwn (10 rhagweladwy a 10 anrhagweladwy) wedi'i dilyn gan drafodaeth am ateb y dysgwr i bob cwestiwn.

**2. Arolwg ar gyfer dysgwyr cyn ac ar ôl y sgwrs:**

**Cofnodir y dilynol:**

- Cymhelliant
- Pryder wrth siarad Cymraeg
- Hunanasesu llwyddiant ar ôl y sgwrs

Sganiwch y cod QR i ddarllen cwestiynau'r arolwg a'r fframwaith codio i'w ddadansoddi gan ddefnyddio ELAN.

**Enghraifft:**

Tiwtor [cwestiwn pendant]

Dych chi'n hoffi darllen llyfrau?

Dysgwr [ateb un gair]

Ydw

Tiwtor [dechrau trafodaeth]

Beth ydy eich hoff lyfr chi?

Dysgwr [parhau'r drafodaeth]

'Llanw' gan Manon Steffan Ross achos fy mod i'n hoffi llyfrau Cymraeg.

**Mesurau:**

- ❑ **Cyfathrebu:** amserau cymryd-tro, nifer o wahanol fathau o giwiau gweledol wrth siarad.
- ❑ **Cymhelliant**: cymhelliant i barhau dysgu Cymraeg, pryder wrth ddysgu iaith, hunanasesiad o lwyddiant a chynnydd.

**Mesur rheolydd- Rhagfynegi**

Gellir creu cwestiynau 'rhagweladwy' ac 'anrhagweladwy' gan ddefnyddio dull cyfannu (Cloze test) (Corps et. al., 2018).

Crëir arolwg lle gofynnir i gyfranogwyr lenwi'r gair olaf mewn brawddeg/ cwestiwn.

Cyfrifir tebygolrwydd cyfannu (cloze) ac entropi pob ateb:

**25% uchaf = rhagweladwy**
**25% isaf = anrhagweladwy**

| Hyd y bwlch cyn ymateb | |
|---|---|
| Rhagweladwy | Anrhagweladwy |
| Byr | Hir |

Felly, gellir ei ddefnyddio fel mesur rheoli i gymharu maint yr effaith yn y ddau ddull dysgu.

## Rhagdybiaeth

Nodweddir sgyrsiau rhithiol gan gymryd-tro anwastad oherwydd yr oedi yn ogystal â'r cyfyngiadau ar ddehongli ciwiau gweledol a chlywedol. Mae'r arddull hon o gymryd-tro yn gysylltiedig â llai o ddiddordeb a sylw mewn sgwrs yn ogystal â chysylltiad cymdeithasol gwannach (Warnke, 2024). Cynydda hyn y llwyth gwybyddol gan fod yn rhaid i'r ymennydd weithio'n galetach i ddehongli'r signalau isymwybodol hyn i wybod pryd i siarad a gwrando. Cyfranna hyn at flinder Zoom (Webb, 2021).

Mae cysylltiad cymdeithasol, sylw a diddordeb yn ffactorau hanfodol wrth geisio cynnal cymhelliant wrth ddysgu iaith (Ushioda, 2020).

Felly, rhagdybir y bydd rhyngweithiadau mewn ystafelloedd dosbarth wyneb yn wyneb yn fwy effeithiol wrth gynnal cymhelliant dysgwyr i barhau i ddysgu. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd y gallai dysgu'n rhithiol leihau pryder wrth ddysgu iaith oherwydd bod gan ddysgwyr mwy o reolaeth dros y sefyllfa ddysgu.


**Cyfeiriadau**

Boland, J. E., Fonseca, P., Mermelstein, I., & Williamson, M. (2022). Zoom disrupts the rhythm of conversation. Journal of Experimental Psychology: General, 151(6), 1272–1282. https://doi.org/10.1037/xge0001150

Corps, R. E., Gambi, C., & Pickering, M. J. (2018). Coordinating Utterances During Turn-Taking: The Role of Prediction, Response Preparation, and Articulation. Discourse Processes, 55(2), 230–240. https://doi.org/10.1080/0163853X.2017.1330031

Levinson, S. C., & Torreira, F. (2015). Timing in turn-taking and its implications for processing models of language. Frontiers in Psychology, 6. https://doi.org/10.3389/fpsyg.2015.00731

Templeton, E. M., Chang, L. J., Reynolds, E. A., Cone LeBeaumont, M. D., & Wheatly, T. (2022). Fast response times signal social connection in conversation. The Proceedings of the National Academy of Sciences. https://doi.org/10.1073/pnas.2116915119

Tian, Y., Liu, S., & Wang, J. (2024). A Corpus Study on the Difference of Turn-Taking in Online Audio, Online Video, and Face-to-Face Conversation. Language and Speech, 67(3), 593–616. https://doi.org/10.1177/00238309231176768

Ushioda, E. (2020). Language Learning Motivation. Oxford University Press.

Warnke, L. (2024). The Communication of Social Meaning in Conversation. Prifysgol Tufts.

Webb, M. (2021). Zoom Fatigue and How to Prevent It. Journal of Registry Management, 48(4), 181–182.

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. (2024). Ystadegau 2022—2023: Data Dysgwyr Dysgu Cymraeg [Set Data]. https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/cyhoeddi-data/ystadegau-2022-2023/

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. (2025). Ystadegau 2023—2024: Data'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol [Set Data]. https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/cyhoeddi-data/ystadegau-2023-2024/